

Ieuan Ddu Alltwn

gan HUI WALTERS

Yn rhifyn y Nadolig 1989 o *Y Casglwr* bu Miss Beti Rhys yn olrhain gyrfa ramantus John Thomas (Ifor Cwm Gwŷs), a dangosodd ei fod ymhlith y mwyaf poblogaidd o brydyddion y de tua chanol y ganrif ddiwethaf. Brodor o blwyf Llandybie oedd Ifor, ac er iddo gartrefu ym Morgannwg bu ganddo gysylltiad agos iawn â'r cylch bychan o feirdd a dyfodd yng ngodre dyffryn Aman yn hanner cyntaf y ganrif ddiwethaf. 'Roedd Rachel, ei wraig, yn ferch i David Davies o'r ffatri wlân yn Mhentregwenlais, ger Llandybie. Undodwr oedd ef, ac arferai gerdded bob Sul o'i gartref ym Mhentregwenlais i Ben-pistyll ym mhlwyf Llanfynydd i wrando ar Thomas Evans (Tomos Glyn Cothi) yn pregethu. Ac o gofio mai gwehydd oedd Tomos Glyn Cothi yn y cyfnod hwn, mae'n deg tybio bod David Davies ac yntau'n bur gyfarwydd â'i gilydd.

Un o'i feibion oedd Job Davies (Rhydderch Farfgoch, 1821-87) un o brydyddion amlycaf ei ardal a fu'n gyfrannwr cyson i golofnau barddol gwasg gyfnodol Gymraeg y ganrif ddiwethaf. Bu Rhydderch mewn sawl sgarmes yn y wasg, yn ymladd yn erbyn gormeswyr eglwysig a gwladol fel ei gilydd. Gwyddai'n dda am orthwrwm y tollbyrth a phlediodd achos merched Becca yn 1843. Bedair blynedd cyn hynny, yn 1839, plediodd achos David Jones, Warden plwyf Llan-non, ger Llanelli, a'r gŵr a garcharwyd am ei wrthwynebiad i'r dreth eglwys. Yr oedd hefyd yn un o brif gefnogwyr cymdeithas ddyngarol y Gwir Iforiaid, yn eisteddfodwr pybyr, a'i waith prydyddol yn barhâd y traddodiad barddol gwledig a ffynnai yn yr ardal yn ystod y cyfnod cyn-ddiwydiannol.

Gwyddys fod Rhydderch Farfgoch yn un o ddeg o blant, a bod brawd iddo, Theophilus Davies, yntau hefyd yn brydydd gwlad o gryn fedr. Ymddangosodd rhai o'i ganeuon yn *Seren Gomer*, ac un o'i gerddi mwyaf poblogaidd oedd 'Cân y Canhwyllau Cyrff' a ganwyd ar fesur triban ac a gyhoeddwyd yn *Seren* ym mis Mehefin 1838. Bu Theophilus Davies yn gweithio am gyfnod yng ngweithfeydd haearn Penydarren ym Merthyr Tudful, ond dychwelodd i fyw gyda'i deulu i'r Alltwn yng Nghwmtawe yn nechrau'r pedwardegau. Merch o blwyf Llandybie oedd Catherine, ei wraig a ganwyd iddynt bump o blant rhwng 1835 a 1847 — John, Elizabeth, Harriet, Ellen ac Angharad. Eithr bregus fu iechyd y tad erioed, a bu farw o'r darfodedigaeth ym mis Mai 1849. Claddwyd ef ym mynwent capel yr Undodiaid ar Fynydd

Gellionnen uwchben Cwmtawe, a chanodd Ifor Cwm Gwŷs, ei frawd yng nghyfraith, awdl goffa iddo, a gyhoeddwyd ar dudalennau'r *Ymfynydd*, cylchgrawn misol yr Undodiaid.

Pedair ar ddeg oedd John, y mab hynaf, pan fu farw ei dad yn 1849, ac yr oedd eisoes wedi dechrau ar ei yrfa fel gwehydd yng Nghwmtawe. Fel ei dad, Theophilus Davies, 'roedd gan y mab yntau gryn ddi-ddordeb mewn llên a barddas, a chyhoeddwyd ei gynhyrchion cynharaf yn *Y Bedyddiwr*, y misolyn a olygwyd gan Aneurin Fardd. Yn ddiweddarach bu'n gyfrannwr cyson i golofn farddol William Williams (Caledfryn) yn *Y Gwladgarwr*, y newyddiadur wythnosol a gyhoeddwyd yn Aberdâr. Arferai Caledfryn osod tasg i'r beirdd o bryd i'w gilydd, ac yn 1865 cynigiodd gopi o'i gyfrol ef ei hun — *Caniadau Caledfryn* yn wobwr am y cyfieithiad gorau i'r Gymraeg o un o gerddi Jenner. Cyfieithiad John Davies a orfu yn y gystadleuaeth, ac mae'r llythyr a anfonodd at Galedfryn ym mis Tachwedd 1865 yn ddadlennol, ac yn dangos gymaint oedd dyled mân brydyddion y de i ddylanwad eu hathro barddol. Medd ef:

'... Mil gwell gennyf ennill deg neu bump swllt o dan eich beirniadaeth chwi, na dwy neu dair punt o dan eiddo mân feirniad anwybodus ein heisteddfodau. Y mae eich syniadau barddol chwi yn llesoli y cystadleuwyr, — nid eu chwyddo â gwynt a'u seboni â gweniaith. Y mae yn llon gennyf feddwl mai o dan eich golygyddiaeth chwi y deuthum allan gyntaf fel cyfanosyddyd barddoniaeth, ac felly ystyriwyf chwi fel fy nhad llenyddol... Credaf eich bod wedi gwneud mwy tuag at buro barddoniaeth a llenyddiaeth Gymraeg nag un o feirdd y Dywysogaeth...'

Erbyn hyn, yr oedd John Davies, neu 'Ieuan Ddu Alltwn' fel y galwai ei hun, yn brydydd peryglus yn y cyfarfodydd llenyddol a'r eisteddfodau.

Priododd ag Anne Morgan o'r Ffair-fach, ger Llandeilo, yn eglwys Cil-y-bebyll ym mis Ionawr 1863, a ganwyd iddynt ddau fab — Ifor Morgan yn 1864, a Theophilus Taliesin yn 1867. Yr oedd Ieuan Ddu bellach wedi mentro i faes rhyddiaith, a chyhoeddwyd tair nofel gyfres o'i eiddo yn benodau wythnosol yn *Y Gwladgarwr* rhwng 1866 a 1872. Ond ym mis Medi 1876 ymddangosodd adroddiad yn yr un newyddiadur yn hysbysu'r cyhoedd am y cyfarfod anrhegu arbennig a oedd i'w gynnal yng Nghwmtawe ar achlysur

ymadawiad Ieuan Ddu a'i deulu i'r Taleithiau Unedig. Ac yntau'n llanc ifanc pedair ar ddeg oed yn 1849 derbyniwyd Ieuan Ddu yn gyflawn aelod o Eglwys Iesu Grist o Saint y Dyddiau Diwethaf. Saith mlynedd ar hugain yn ddiweddarach penderfynodd ymfudo i fyw gyda'i gyd-Formoniaid yn nhalaith Utah.

Yn ôl tystiolaeth ei lythyr a gyhoeddwyd yn *Y Gwladgarwr* ym mis Ebrill 1877, yr oedd ei chwiriwydd eisoes wedi ymfudo i Utah rai blynyddoedd o'i flaen. Medd ef:

'... Wedi imi aros oddeutu pythefnos gyda fy chwaer Angharad a'i gŵr yn Coalville, Utah, deuthum i Salt Lake City i ymweld â'm chwiriwydd Harriet ac Ellen. Yna euthum i edrych am le i ddilyn fy ngoruchwyliaeth wehyddol. Cefais le yn y Wasatch Woolen Mills, sef ffatri tua phum milltir tu allan i'r ddinas...'

Wyth mlynedd yn ddiweddarach cafodd waith fel clerc gyda chwmmi glofeydd Pleasant Valley. Yn y man daeth yn ffigur amlwg ymhlith y Cymry yn Utah. Ef a drefnai'r eisteddfodau yn Provo bob blwyddyn, a bu'n aelod blaenllaw o'r gymdeithas Gymraeg yno. Ef hefyd oedd bardd cadeiriog Eisteddfod Spanish Fork yn 1900.

Ar wahân i'w golofnau yn *Y Drych*, newyddiadur Cymry America, ysgrifennai Ieuan yr un mor gyson i'r *Gwladgarwr*, *Tarian* y *Gweithiwr* a *Llais Llafur*. Cafwyd cyfres o'i eiddo yn dwyn y teitl 'Cofnodion o'm dyddlyfr Americanaidd' yn *Y Gwladgarwr* yn 1876, a dilynwyd hon gan

gyfres arall — 'Yr hyn a welais ac a glywais yn America' yn 1877. Ymddangosodd cyfres arall ar 'Utah a'r Mormoniaid' yn *Tarian* y *Gweithiwr* yn 1878, ac yn 1885 dechreuodd gyfrannu colofn o 'Nodion Americanaidd' i'r un newyddiadur. Mae'r cyfraniadau hyn yn ffynonellau gwerthfawr i'r sawl sydd am olrhain hynt a helynt y Cymry yn Utah yn y ganrif ddiwethaf.

Bu Ieuan a'i deulu yn ffyddlon i'r Gymraeg drwy gydol y cyfnod hwn, fel y dengys ei nodyn yn *Tarian* y *Gweithiwr* ym mis Chwefror 1885:

'... Yr ydym ni fel teulu yn meddwl parhau i siarad Cymraeg cyhyd ag y byddo ynom anadl einioes. Y mae fy nau fab, Ifor a Thaliesin, yn parablu yr hen Omeraeg mor groyw heddiw ag erioed, er yn medru siarad Saesneg fel unrhyw Yankee. Ffoliesin meddwl fod y Gymraeg yn marw yn America. Credaf fod mwy o berygl iddi farw yn gyntaf yng Nghymru...'

Bu farw Anne, ei briod, ym mis Mehefin 1890. Ugain mlynedd yn ddiweddarach, ym mis Hydref 1910 claddwyd ei fab, Taliesin, yn dair ar ddeg ar hugain oed, gan adael gwraig a dwy o ferched. Y mae wyres iddo, Shirley Spaulding, yn byw yn Provo heddiw. Addysgwyd Taliesin yn Academi Brigham Young yn Provo, a bu'n bensaer llwyddiannus yn Ninas y Llyn Halen cyn ei farw. Bu Ieuan Ddu, ei dad, farw ym mis Mawrth 1912, a chladdwyd, Ifor Morgan, y mab arall, yn hen lanc 92 oed ym mis Medi 1955. Ni wyddys, fodd bynnag, beth a ddaeth o bapurau personol ei dad.

SIOP LYFRAU DYFFRYN DYFI

6 Heol y Doll, Machynlleth
Powys, SY20 8BQ

Ffôn: (0654) 703849

Stoc helaeth o lyfrau ar werth bob
amser, gan gynnwys detholiad o
deitlau Cymraeg a Chymreig.

Ar agor: Llun – Sadwrn 10.00 – 6.00

Ar gau: lau

Perchennog: Mrs Barbara Beeby